Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**

---

**Creu Economi Gofalu yng Nghymru**
**a'r**
**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

**Noddir gan Siân Gwenllian AS a Suzy Davies AS**
**15 Hydref 2020**
**Zoom 14:00-15:00**

***Yn bresennol:***
*Siân Gwenllian AS (Cadeirydd)*
*Suzy Davies AS (Cadeirydd)*
*Catherine Fookes, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru*
*Hilary Watson, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (cofnodion)*
*Tash Davies, Grŵp Cyllideb Menywod (siaradwr)*
*Patience Bentu, Grŵp Cynghorol BAME Covid-19 y Prif Weinidog (siaradwr)*
*Duncan Fisher, Grŵp Cyllideb Menywod (siaradwr)*
*Jackie Jones, Menywod yn Ewrop (Cymru) (siaradwr)*
*Rachel Minto, Menywod yn Ewrop (Cymru)*
*Jenna Norman, Grŵp Cyllideb Menywod*
*Alison Parken, Ysgol Busnes Caerdydd*
*Ruth McKie, Soroptimists Int. De Cymru*
*Jessica Williams, WCVA*
*Lynne Tedik, Soroptimists Int. De Cymru*
*Debbie Shaffer, FTWW*
*Rachel Cable, Oxfam Cymru*
*Ele Hicks, Diverse Cymru*
*Sarah Thomas, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched*
*Jenny Ramsay, swyddfa Paul Davies AS*
*Abi Thomas, Swyddog Menywod Plaid Cymru ar gyfer etholaeth Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*
*Julie Richards*
*Claire Thomas, Sefydliad Bevan*

***Ymddiheuriadau:***
*Helen Mary Jones AS*
*Llyr Gruffydd AS*
*Katie Cooke*
*Sophie Weeks, Cymorth i Ferched Cymru*
*Jordan Brewer, Cymorth i Ferched Cymru*
*Krista Powell Edwards*
*Diana Stirbu, Prifysgol Fetropolitan Llundain*
*Leena Farhat*

| | |
|---|---|
| 1 | Croeso, cyflwyniadau, ymddiheuriadau – *Cadeiryddion*<br><br>*Cofnodion y cyfarfod diwethaf. Mae angen cywiro'r cyfeiriad at y Gynhadledd ar Ddyfodol Ewrop – Cynhadledd yr Undeb Ewropeaidd yw hon (nid y Cenhedloedd Unedig).*<br>❖ *Cam i'w gymryd: Ysgrifennydd i'w gywiro* |
| 2 | Busnes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – *Cadeiryddion*<br><br>*Catherine Fookes yn cynnig bod Siân Gwenllian AS a Suzy Davies AS yn cael eu hail-ethol yn gadeiryddion. Eiliwyd gan Rachel Minto. Ail-etholwyd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn ysgrifenyddiaeth. Mae Sian Gwenllian AS yn diolch i'r grŵp am ei hail-ethol ac yn addo parhau â gwaith y grŵp hyd nes etholiadau 2021.* |
| 3 | **Diweddariad gan y Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru) – Jackie Jones**<br><br>Mae Jackie Jones bellach yn gweithio fel rhan o'r Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru). Ailadroddodd Jackie fod angen i ni gofio ein bod yn dod at ddiwedd cyfnod pontio Brexit. Bydd Brexit yn arwain at oblygiadau penodol ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau a hawliau menywod. Ni allwn adael i bethau fynd yn angof oherwydd Covid-19.<br><br>1) **Cynhadledd ar Ddyfodol Ewrop.** Mae angen lobïo i gael cynrychiolaeth o Gymru yn y gynhadledd hon. Mae gennym lwybr uniongyrchol i mewn iddi. A yw Cymdeithas Sifil neu'r Llywodraeth yn destun trafodaeth?<br><br>*Soniodd Jackie am hyn wrth y Prif Weinidog Mark Drakeford, y Gweinidog Jeremy Miles a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip Jane Hutt ym mis Mawrth – bu rhai newidiadau portffolio ers hynny felly byddai'n werth ysgrifennu atynt eto.*<br><br>❖ **Cam i'w gymryd: Ysgrifennu at Jane Hutt AS ac Eluned Morgan AS i ofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan Gymru sedd yn y gynhadledd hon.**<br><br>2) **Y Cyngor Ewropeaidd** yn dechrau heddiw. Dywed Angela Merkel ei bod hi eisiau bargen deg – mae'r penwythnos hwn yn bwysig.<br>3) **Covid a Brexit** – yn ystod Covid roedd ein siopau'n llawn, gyda phopeth ar gael. Ar ôl i Brexit ddigwydd, efallai na fydd hynny'n wir. Rydym yn wynebu llawer o broblemau. Mae'n bwysig iawn bod gennym neges glir ac unedig ynghylch Brexit.<br>4) Pasiwyd y **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol** gan yr Undeb Ewropeaidd.<br>5) 4 Tachwedd – **Diwrnod Cyflog Cyfartal yr UE**<br>6) 18 Hydref – **Diwrnod Atal Caethwasiaeth** y dydd Sul hwn. Wythnos o |

| | |
|---|---|
| | weithgareddau – cyfraith Cyngor Ewrop. Tynnu sylw at y ffaith fod deddfwriaeth y DU yn gul ac mae confensiwn Cyngor Ewrop yn llawer ehangach.<br>7) Mae Jackie Jones wedi gofyn i Jeremy Miles a fu **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** ar gyfer y Bil Ymadael. Nid yw hi wedi cael ateb eto.<br>8) Mae'r **Undeb Affricanaidd** yn trafod pasio cytuniad i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched. Mae angen cymorth arnynt gan Gymru. Mae'n **Wythnos Affrica yn yr Undeb Ewropeaidd** – yr ymgyrch **'Every Woman'.** Efallai y bydd Sefydliad Menywod y Gymanwlad a WCIA eisiau cymryd rhan hefyd.<br><br>❖ **Cam i'w gymryd: Llythyr at Lywodraeth Cymru (Eluned Morgan AS) ar Gytundeb yr Undeb Affricanaidd.** |
| 4 | **Patience Bentu** o'r Grŵp Cynghorol BAME COVID-19 yn sôn am yr adroddiad '**Adroddiad is-grŵp economaidd-gymdeithasol grŵp cynghorol BAME y Prif Weinidog ar COVID-19'**<br><br>Mae Patience yn hapus i glywed gan Jackie Jones bod y cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol wedi'i basio yn yr UE – mae'n edrych ymlaen at weld yr un peth yn digwydd yng Nghymru.<br><br>Ar ddechrau'r cyfyngiadau symud yng Nghymru, dechreuodd Patience a'i chydweithwyr ymgysylltu â 250 o grwpiau cymunedol ar lawr gwlad - o henuriaid Windrush i grwpiau ieuenctid. Yr adborth a gawsant oedd bod llawer o deuluoedd a phobl yn dioddef. Nid dyma'r unig sefydliad BAME sy'n gwneud hyn - roedd sefydliadau eraill hefyd yn cael adborth tebyg iawn ac yn rhoi adborth ynglŷn â hyn i Lywodraeth Cymru. Gwnaeth y Prif Weinidog gynnull y Grŵp Cynghorol BAME i roi cyngor i Lywodraeth Cymru. Rhannwyd adroddiad yr is-bwyllgor gyda'r Grŵp Trawsbleidiol. I grynhoi:<br><br>Nodi'n benodol bod elfennau economaidd-gymdeithasol yn arwain at ganlyniadau gofal iechyd a gofal cymdeithasol negyddol ar gyfer pobl BAME, gan ddangos canlyniadau anghymesur. Mae'n awgrymu opsiynau tymor byr i osgoi gwaethygu'r anghydraddoldebau a nodwyd; heriau yn y gymuned; rhwystrau ieithyddol neu ddiwylliannol ar gyfer gwahaniaethu o ran rhoi gwybodaeth i gymunedau BAME; cwestiynau ymchwil posibl ar gyfer dadansoddi yn y tymor hir neu dymor canolig.<br><br>Mae'r grŵp yn cynnwys gweithwyr GIG BAME; y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; swyddogion Llywodraeth Cymru; y trydydd sector ac arweinwyr cymunedol sydd ag arbenigedd o'r byd academaidd, ieuenctid, a gwybodaeth arbenigol am y trydydd sector. Mae'n edrych ar iechyd meddwl, cydraddoldeb, hawliau dynol, tai a chyfiawnder cymdeithasol. Nid oedd undebau wedi'u cynrychioli'n swyddogol ond roedd swyddogion undebau yn rhan o'r is-grŵp. Roedd y cwmpas yn cynnwys ymgysylltu'n eang o fewn cymunedau BAME gyda thystiolaeth neu bersbectif o brofiadau byw trwy amrywiaeth o ffynonellau – gydag ymhell dros 400 o unigolion.<br><br>Mae anghydraddoldebau o ran hil yn parhau yng Nghymru. COVID19 – mae diffyg |

data, neu ddata o ansawdd isel, ar ethnigrwydd wedi arwain at ganlyniadau iechyd gwael. Pethau eraill sy'n gwaethygu: effeithiolrwydd cyfathrebu gwybodaeth iechyd; ansicrwydd incwm a diweithdra; cartrefi aml-genhedlaeth; baich ariannol yn sgil statws ymfudo ac amgylchedd gelyniaethus gan y Swyddfa Gartref; trais yn erbyn menywod a phlant; hiliaeth strwythurol a systemig.

Yn ogystal, roedd rhywfaint o dystiolaeth yn ymwneud â phobl ifanc BAME a phryderon cynyddol am eu dyfodol. Roedd llawer o bryderon yn ymwneud â diffyg mynediad at dechnoleg ddigidol yn ogystal â'r system sgorio rhagfynegol arholiadau. Thema gyffredinol: effaith hiliaeth ac anfanteision hirsefydlog a diffyg cynrychiolaeth BAME. Pwysleisiodd Patience nad yw llawer o'r pethau a amlygwyd yn newydd ond nad ydynt wedi cael sylw priodol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion tymor byr, tymor canolig a thymor hir ac mae'n cael ei ddefnyddio yng ngwaith Llywodraeth Cymru ar y cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol.

O ran menywod, nododd yr adroddiad hwn fod Adolygiad Cydraddoldeb Rhywedd Chwarae Teg yn rhoi cyfle i hyrwyddo'r agenda hon ar gyfer menywod BAME gan fod canfyddiadau'r Adolygiad Cydraddoldeb Rhywedd yn nodi'n glir bod yn rhaid i bolisïau cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru gynnwys ystyriaethau croestoriadol.

Trafododd Patience bwysigrwydd yr ymgyrch Amrywiaeth 50:50 – sef partneriaeth rhwng Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, Cyngor Hil Cymru, EYST Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru. Mae Cyngor Hil Cymru eisiau cynnwys mwy o fenywod o leiafrifoedd ethnig. Mae adroddiad Grŵp Cyllideb Menywod – i'w drafod isod – yn trafod cydraddoldeb rhwng y rhywiau a lles. Byddai cyflawni'r amcanion hyn yn golygu bod menywod o leiafrifoedd ethnig yn cael eu cynnwys yn fwy ym mhob sector yng Nghymru.

Soniodd Siân Gwenllian am y cynnig trawsbleidiol yn y Senedd yr wythnos diwethaf ar yr adroddiad, gydag argymhellion yn cael eu derbyn gan y Senedd gyfan, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mae gwir angen i'r argymhellion hyn gael eu cyflawni.

- ❖ Cam i'w gymryd: Llythyrau yn ailadrodd ein cefnogaeth i'r argymhellion – at y Prif Weinidog, yn pwysleisio ein bod am weld yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl; ac i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS, fel y Dirprwy Weinidog Cydraddoldeb – gyda phwyntiau penodol yn ymwneud â rhywedd.

Dywed Catherine Fookes fod yr ymgyrch Amrywiaeth 50:50 yn bwysig iawn – mae angen i ni weld menyw groenliw yn cael ei hethol i'r Senedd.

- ❖ Camau gweithredu ar gyfer y grŵp: Gall unrhyw un sydd heb ymuno â'r ymgyrch Amrywiaeth 50:50 gofrestru ar gyfer y tri gofyniad.

- ❖ Cam i'w gymryd: Gofynnodd Suzy Davies AS i'r grŵp Amrywiaeth 50:50 anfon

| | |
|---|---|
| | yr hyn y mae Paul Davies AS wedi'i anfon ynglŷn ag Amrywiaeth 50:50 ati hi. |
| 5 | Lansio adroddiad y Grŵp Cyllideb Menywod yng Nghymru **'Creu Economi Gofalu'**<br><br>• **Cyflwynwyd gan Tash Davies, Comisiynydd y Grŵp Cyllideb Menywod.**<br><br>Cefndir – lansiwyd y Comisiwn yng ngwanwyn 2019, gyda 17 Comisiynydd o bob rhan o gymdeithas sifil, y byd academaidd, busnes, undebau llafur a newyddiadurwyr. Gofynnwyd iddynt ystyried pa newidiadau y mae angen eu gwneud i sicrhau bod ein heconomi yn un sy'n arwain at gydraddoldeb rhwng y rhywiau, a arweiniodd at gyhoeddi adroddiad pedair gwlad. Gwnaeth y Comisiwn ymweld â phob gwlad a defnyddiwyd dull croestoriadol.<br><br>Wrth i'r Comisiwn ddatblygu eu ffordd o feddwl, daeth i'r amlwg bod gofal yn hanfodol bwysig i'n lles fel unigolion ac fel cymdeithas. Daeth y prosiect o hyd i dystiolaeth bod anghydraddoldeb ac esgeulustod o ran pobl a'r blaned wedi'i ymwreiddio, ac nad yw'r dull presennol yn gweithio i fenywod, pobl groenliw, pobl anabl a phobl ar incwm isel. Mae'r argyfwng Covid-19 wedi pwysleisio hyn ymhellach. Mae'r adroddiad yn galw am symud tuag at economi gofalu. Trwy fynd ar drywydd economi gofalu, gallwn gyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau, cynaliadwyedd a gwella llesiant ar yr un pryd. Mae economi gofalu yn golygu rhoi pobl a'r blaned yn gyntaf fel bod pawb yn cael amser i ofalu ac amser lle nad ydynt yn gofalu. Gall dynion rannu'r ddarpariaeth ofal ddi-dâl yn gyfartal ac mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar ofalu am gyflog ac amodau gwaith.<br><br>Y prif gamau, gydag argymhellion penodol, sy'n croestorri meysydd a gedwir a meysydd datganoledig, yw:<br><br>1) Ail-edrych ar ystyr 'yr economi' i ni<br>2) Buddsoddi mewn seilwaith cymdeithasol, yn ogystal â seilwaith ffisegol<br>3) Trawsnewid bydoedd gwaith â thâl a gwaith di-dâl<br>4) Buddsoddi mewn system nawdd cymdeithasol gofalgar yn seiliedig ar urddas ac ymreolaeth<br>5) Trawsnewid y systemau treth ledled y DU<br>6) Newid ffocws polisi cyllidol a pholisi ariannol i ganolbwyntio ar greu economi ofalgar<br>7) Mynd ati i ddatblygu system fasnach sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol<br>8) Mynd ati i drawsnewid y system economaidd ryngwladol<br><br>**Perthnasedd yng Nghymru ac ar hyn o bryd:**<br>Amlygodd COVID-19 bod angen newid arnom ar frys; mae angen i ni beidio â dychwelyd i'n hen arferion. Gydag etholiadau'r Senedd ar y gorwel, mae cyfle i ddarparu economi ofalgar yng Nghymru. Er efallai ein bod yn teimlo bod ein pwerau yn gyfyngedig yma yng Nghymru, ni ddylem fod yn teimlo hynny. Gall y llywodraeth nesaf yng Nghymru roi hyn wrth wraidd ei pholisi economaidd. Mae gennym seiliau cryf yng Nghymru yn barod, gyda: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr |

| | |
|---|---|
| | Adolygiad Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau, yr agenda Gwaith Teg<br><br>Mae pobl yn awyddus i weld hyn. Dylai pleidiau gwleidyddol gynnwys argymhellion yn eu maniffestos ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021.<br><br>❖ Cam i'w gymryd: Ysgrifennydd i anfon yr adroddiad at bawb eto<br><br>• **Myfyrdodau ar yr adroddiad gan Duncan Fisher, Comisiynydd y Grŵp Cyllideb Menywod**<br><br>Cyflwynodd Duncan ei hun ac eglurodd fod ganddo 25 mlynedd o brofiad yn gweithio ar feysydd polisi gofalu a rhywedd yn ymwneud â thadolaeth, a ddechreuodd pan anwyd ei blentyn cyntaf. Ymgyrchodd dros absenoldeb rhiant a rennir heb lwyddiant ac roedd yn aelod o'r Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal pan oedd yn bodoli. Cafodd ei wahodd i gomisiwn y Grŵp Cyllideb Menywod i gyfrannu persbectif dynion.<br><br>Trafododd yr hyn a ganlyn:<br><br>1) bod ail-lunio cydraddoldeb rhywiol o amgylch economi gofalu yn wirioneddol gyffrous – nid oedd ei galw'n economi gofalu yn fwriadol wrth ddechrau ar y gwaith ond daeth i'r amlwg trwy'r gwaith ymchwil. Mae canolbwyntio ar sut mae gofal yn cael ei rannu'n anghyfartal yn esgor ar agweddau eraill ar anghydraddoldeb a rhannu atebion<br>2) mae'r ffordd y mae'r adroddiad wedi dod â'r agenda ynghyd â lles yn gyffrous ar gyfer Cymru. Gwnaeth y Comisiwn gwrdd â phobl o'r Wellbeing Economy Alliance yn yr Alban mewn cyfarfod ysbrydoledig iawn. Dywedodd Duncan eu bod bellach wrthi'n sefydlu Cynghrair Economi Lles yng Nghymru a dywedodd os oes gan unrhyw un sy'n bresennol ddiddordeb mewn cymryd rhan, y dylid rhoi gwybod iddo.<br><br>❖ Cam i'w gymryd: Os oedd gan y rhai oedd yn bresennol diddordeb mewn bod yn rhan o Gynghrair Economi Lles yng Nghymru, dylent roi gwybod i Duncan Fisher.<br><br>3) beth yw'r manteision i ddynion – roedd y ffigurau pleidleisio yn cynnwys dynion yn ogystal â menywod. Yn fras, mae dynion a menywod eisiau'r un peth – mwy o amser i ofalu a mwy o amser yn rhydd o waith di-baid. Gall dynion elwa cymaint â menywod yn sgil yr agenda hon. Mae'r adroddiad yn cynnwys adran gyfan ar hyn ac yn cyflwyno polisi'n ymwneud ag absenoldeb rhieni – mae absenoldeb rhiant a rennir yn y DU yn ofnadwy ar hyn o bryd. Mae'n cynnwys cynigion radical ar gyfer hawl gyfartal (model Nordig/Gwlad yr Iâ). Nod Duncan o hyd yw ceisio cynnwys dynion yn yr agenda hon – mae'r adroddiad hwn yn hygyrch a dylai cenhedlaeth newydd o ddynion yn arbennig allu ymgysylltu â hyn. |
| | Trafodaeth a chwestiynau gan y rhai sy'n bresennol<br><br>Gofynnodd aelod o'r gynulleidfa i Tash Davies am restr o'r meysydd y gallwn edrych |

| | |
|---|---|
| | arnynt yn benodol yng Nghymru. Dywedodd Tash fod rhannau o'r adroddiad wedi'u datganoli – e.e. seilwaith cymdeithasol. Mae buddsoddiad cynyddol mewn gofal plant yng Nghymru, er bod problemau eisoes yn hysbys gyda'r cynnig gofal plant yng Nghymru. Pwysleisiodd na ddylem gadw at ddull gweithredu nad yw'n gweithio gan ei fod wedi'i gynnwys mewn maniffesto etholiad.<br><br>O ran gofal cymdeithasol, mae'n bosibl gwneud newidiadau trwy gomisiynu.<br><br>❖ Cam i'w gymryd: Tash i ofyn i'r Grŵp Cyllideb Menywod a oes ffigurau ariannol ar gyfer Cymru o ran gwerth economi ofalgar. |
| 5 | Unrhyw fater arall<br><br>• Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyfnod 2 y Bil Llywodraeth Leol yn dilyn y cyfarfod diwethaf<br><br>❖ Cam i'w gymryd: Bydd Suzy Davies AS yn cael nodyn gan y tîm ymchwil am y Bil Llywodraeth Leol. Bydd yn anfon hwn at y grŵp.<br><br>• Debbie Shaffer – diolchodd i Suzy Davies am ei chyfraniad yn y ddadl ddoe ar endometriosis.<br><br>• Y wybodaeth ddiweddaraf gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru:<br><br>o Dydd Gwener 23 Hydref – Caffi'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod gyda Hanes Pobl Dduon Cymru a RCC – Addysg yng Nghymru. Uzo bydd y Cadeirydd.<br>o 6 Tachwedd – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru.<br><br>❖ **Cam i'w gymryd: Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru i anfon nodiadau i atgoffa pawb am y digwyddiadau uchod** |
| 6 | *Cloi* |